

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Cwm Clydach ar ddydd Mercher 11 Hydref 2017.

Yn bresennol

Y Cynghorydd Bwrdeistref Sirol G. E. Hopkins – yn cadeirio

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:-

C. Leyshon, J. Rosser, R. Yeo

Swyddogion oedd yn bresennol:-

Ms A. Batley – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant

N. Elliot – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Oedolion

Ms H. Williams – Uwch Swyddog Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol

Eraill oedd yn bresennol:-

Ms L. Davies – Nyrs Diogelu, Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ms D. Pachu – Nyrs Diogelu, Iechyd Cyhoeddus Cymru

18. CROESO AC YMDDIHEURIADAU

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i groesawu'r Aelodau i'r cyfarfod a daeth ymddiheuriadau gan y Cynghorydd M. Weaver a'r Cynghorydd S. Rees-Owen.

Cyflwynwyd pawb o amgylch y bwrdd.

19. DATGAN BUDDIANT

Yn unol â'r Cod Ymddygiad, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

Yn amodol ar gymeradwyaeth yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Rhianta Corfforaethol

20. CADW AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD ALLAN O'R CYFARFOD

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, o dan Adran 100(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf, sef gwybodaeth ynglŷn ag unigolyn penodol. Bydd eglurder ymddygiad a gallu unigolion yn cael ei drafod a'i ystyried. Ystyrir, felly, fod budd y cyhoedd wrth gynnal yr eithriad yn troi'r fantol yn erbyn budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth, felly, oherwydd hynny, mae'n debygol na fydd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd.

21. ADOLYGIAD YMARFER OEDOLION

Rhodddwyd cyflwyniad i'r Bwrdd gan Ms L. Davies a Ms D. Pachu o'r Tîm Diogelu, Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynglŷn â'r adolygiad cyntaf ar yr agenda.

Ar ôl trafodaethau maith, rhodddwyd ail gyflwyniad i'r Bwrdd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion – ynglŷn â'r ail adolygiad ger bron yr Aelodau.

Roedd yr adroddiadau'n rhoi gwybod i'r Bwrdd am gynnwys ac argymhellion y ddau Adolygiad Ymarfer Oedolion a gynhaliwyd gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf.

PENDERFYNWYD:

a) nodi cynnwys y ddau adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 4:35pm.

**Y Cyngorydd G. Hopkins
Cadeirydd**